

Hawdd ei Ddeall



Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Adroddiad am y gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Adroddiad Interim – Crynodeb Gweithredol'.

Rhagfyr 2022


Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 18**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl y **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: llyw.cymru/y-comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru


E-bost: ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** drwy ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad.....	4
Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni.....	6
Pleidleisio dros bobl i redeg ein gwlad a'n cymunedau...8	
Deddfau sydd yn cael eu gwneud yng Nghymru.....	9
Sut y dylai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol.....	12
Beth nesaf?.....	16
Hard words.....	18

Cyflwyniad



Ni ydy'r **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**.



Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** sefydlu'r **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru** yn 2021.



Rydyn ni yn dîm o bobl broffesiynol sydd yn gweithio gyda'n gilydd i edrych ar sut mae Cymru yn cael ei rhedeg nawr a sut y gallai gael ei rhedeg yn y dyfodol.

Rydyn ni wedi cael ein sefydlu gan Lywodraeth Cymru i edrych ar:



- Pwy sydd gan bŵer dros beth yng Nghymru.



- Y rheolau ar sut mae Cymru yn cael ei rhedeg.



- Pwy sydd yn gwneud y penderfyniadau sydd yn effeithio ar bobl Cymru.



- Pa rannau o fywyd ydyn ni'n gallu gwneud ein rheolau a'n penderfyniadau ein hunain drostyn nhw.



- Syniadau newydd ar sut mae hyn yn gallu cael ei wella.



Mae hwn yn adroddiad sydd yn dangos beth rydyn ni wedi ei ddysgu hyd yn hyn.



Mae rhagor o waith i'w wneud ac rydyn ni eisiau clywed oddi wrth ragor o bobl.



Fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiad arall y flwyddyn nesaf.

Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni



Fe wnaethon ni ofyn i bobl sut maen nhw'n meddwl y dylai Cymru gael ei rhedeg.


Fe wnaeth pobl ddweud pethau fel:



- Fe ddylai gael ei rhedeg mewn ffordd glir ac agored.



- Doedden nhw ddim yn gwybod sut i gael dweud eu dweud am benderfyniadau.



- Roedd llawer o bobl eisiau i ragor o benderfyniadau gael eu gwneud yn eu hardaloedd lleol.




- Roedd llawer o bobl eisiau i'r llywodraeth gael ei rhedeg mewn ffordd mwy syml.



Roedd yna lawer o wahaniaethau hefyd mewn beth roedd pobl yn ei feddwl.



Roedd rhai pobl yn meddwl y dylai Cymru gael mwy o reolaeth dros sut mae'n cael ei rhedeg.



Roedd rhai eraill yn meddwl y dylai gael llai o bŵer.

Pleidleisio dros bobl i redeg ein gwlad a'n cymunedau




Roedd rhai pobl yn dweud bod angen newid y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau.



Roedd pobl eraill yn dweud y dylai pethau aros yr un fath.



Fe wnaeth rhai gwleidyddion y gwnaethon ni siarad gyda nhw ddweud bod **Brexit** wedi gwneud y berthynas rhwng llywodraethau yn fwy anodd.



Ond bod pethau yn gallu cael eu gwella.



Roedd rhai gwleidyddion eisiau i Gymru gael rhagor o bŵer.

Deddfau sydd yn cael eu gwneud yng Nghymru



Mae Cymru nawr yn gallu gwneud rhai o'i deddfau ei hun.



Mae hyn wedi bod yn gam mawr i Gymru. Ac mae wedi meddwl bod newidiadau yn gallu cael eu gwneud sydd yn well i Gymru.



Mae Cymru yn cael rhagor o reolaeth dros y ffordd mae'n cael ei rhedeg yn cael ei alw yn **datganoli**. Mae'n meddwl bod gan lywodraeth y DU lai o reolaeth dros rai pethau.



Ond mae yna lawer o bwysau hefyd ar **ddatganoli**.

Mae hyn yn cael ei achosi gan bethau fel:



- Problemau gyda'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.



- Weithiau dydy **datganoli** ddim wedi datblygu cymaint ag y gallai fod wedi gwneud. Mae pethau fel **Brexit** wedi cael effaith.



- Mae'r ffordd mae arian yn cael ei reoli rhwng gwledydd y DU yn gallu cael ei wneud yn well.



- Does dim digon o ffyrdd i'r cyhoedd gael dweud beth maen nhw'n feddwl am benderfyniadau.



- Dydy pobl ddim yn hyderus bod digon o bethau yn eu lle i weld os ydy'r Llywodraeth yn gwneud beth mae hi fod i'w wneud.



- Yn gyffredinol mae gan bobl yng Nghymru lai o arian na phobl yn y rhan fwyaf o'r DU. Ond dydy hi ddim yn glir sut mae hyn yn gallu cael ei wella.



- Rhaid i unrhyw newidiadau mae Cymru eisiau eu gwneud am sut mae'n cael ei rhedeg gael ei gytuno gan Lywodraeth y DU. Efallai y bydden nhw yn anwybyddu beth mae Cymru eisiau.



Yn y flwyddyn nesaf o'n gwaith fe fyddwn ni yn edrych ar yr holl faterion yma.

Sut y dylai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol



Rydyn ni'n meddwl bod 3 dewis ar gyfer sut y dylai Cymru gael ei rhedeg yn y dyfodol.



Efallai bydd problemau gyda phob dewis.



Felly, fe fydd angen inni gael rhagor o wybodaeth am bob un. A darganfod beth mae pobl yn feddwl.

Y 3 dewis ydy:

1. Atgyfnerthu datganoli



Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr nad ydy'r pwerau sydd gan Gymru i wneud ei phenderfyniadau ei hun yn gallu cael eu tynnu i ffwrdd gan Lywodraeth y DU.



Fe fyddai'n meddwl bod gan Lywodraeth y DU lai o ddylanwad ar gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.



Mae'n gallu meddwl ymestyn y cyfrifoldebau sydd gan Gymru hefyd, Er enghraifft i gynnwys y system gyfiawnder a'r heddlu.



Fe fyddai'r dewis yma yn helpu i wneud Llywodraeth Cymru yn fwy sefydlog.

2. Trefn ffederal



Mae hyn yn meddwl newid sut mae Senedd a Llywodraeth y DU yn cael eu rhedeg.



Fe fyddai'n meddwl gwneud yn glir pa gyfrifoldebau sydd gan y DU yn gyfan a pha rai sydd gan Lloegr yn unig.



Gallai Cymru gael cyfrifoldeb dros ei **system lles** a threthi.



Mae'r **system lles** yn meddwl pethau fel budd-daliadau a phensiynau. Er enghraifft budd-dal anabled.



Neu gallai Llywodraeth y DU gadw rheolaeth ar hyn.

3. Annibyniaeth



Mae hyn yn meddwl bod Cymru yn dod yn wlad annibynnol.



Fe fydden ni yn gwneud ein rheolau a'n deddfau ein hunain ac yn casglu trethi a rheoli ein harian ein hunain.



Fe fydden ni yn cymryd cyfrifoldeb dros faterion ariannol a fydden ni ddim yn dibynnu ar Lywodraeth y DU am gefnogaeth.

Beth nesaf?



Mae'r adroddiad yma yn dweud beth rydyn ni wedi ei ddarganfod hyd yn hyn.



Mae angen gwneud llawer mwy o waith yn y flwyddyn nesaf.



Ond mae'n amlwg bod llawer o broblemau gyda'r ffordd mae Cymru yn cael ei rhedeg ar hyn o bryd.



Fe fyddwn ni yn dal i edrych ar y problemau yma. Ac yn ceisio cael atebion.



Fe fyddwn ni hefyd yn darganfod beth mae pobl Cymru yn ei feddwl.



Rydyn ni eisiau clywed oddi wrthych chi. Rydych chi'n gallu cysylltu drwy e-bostio ComisiwnYCyfansoddiad@llyw.cymru



Efallai eich bod angen cefnogaeth i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Geiriau Anodd

Economi

Yr economi ydy faint o arian sydd gan wlad. Mae'n gallu effeithio ar faint o wasanaethau cyhoeddus sydd gan wlad a faint o arian sydd gan bobl.

System lles

Mae'r system lles yn meddwl pethau fel budd-daliadau a phensiynau, Ar enghraifft budd-dal anabledd.